**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/0341/25

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

21 Ionawr 2026

Annwyl Mark,

**Y Diweddaraf am Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Gomisiynu Cartrefi Gofal**

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf derfynol i'r Pwyllgor am ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar gomisiynu cartrefi gofal. Ers y tro diwethaf i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar 6 Hydref 2022, rydym wedi cwblhau'r broses o ystyried pob un o'r 13 o argymhellion. O'r rhain, derbyniwyd 10 ohonynt ac maent bellach yn cael eu rhoi ar waith. Ni dderbyniwyd 3 ohonynt, ac mae'r rhesymau wedi'u darparu.

Rydym yn falch o'r cyfle a roddwyd i ymateb a chryfhau prosesau comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynu cartrefi gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid statudol i sicrhau cydweithio ar draws sectorau, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddinasyddion a'r hyn sydd bwysicaf i bobl. Rydym wedi diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 i gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wedi datblygu'r *'Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: cod ymarfer i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG'.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gryfhau'r gwaith cyflawni drwy ddatblygu gweithgarwch comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan sicrhau ymgysylltu a chydgynhyrchu â dinasyddion. Byddwn yn monitro cynnydd yn weithredol drwy weithdrefnau adrodd partneriaid statudol.
Mae'r wybodaeth ddiweddaraf hon yn rhan o'n gwaith ehangach i gau adroddiadau gwaddol a sicrhau bod yr holl argymhellion heb eu hystyried wedi cael ymateb ffurfiol. Rydym yn gwerthfawrogi amynedd y Pwyllgor wrth inni gwblhau'r gwaith hwn.

Mae manylion pob argymhelliad ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn atodiad 1 – Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth.

**Casgliad**

I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ystyried pob un o'r 13 o argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor. Derbyniwyd deg argymhelliad ac maent naill ai wedi'u rhoi ar waith yn llawn neu'n gwneud cynnydd da. Ni dderbyniwyd tri argymhelliad, ac mae rhesymeg glir wedi'i darparu. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli cryfhau sylweddol o ran ymarfer comisiynu, ymgysylltu â dinasyddion,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithgarwch arolygu, a chymorth i'r gweithlu ar draws y sector cartrefi gofal. Mae'r casgliad hwn yn cael ei ategu gan dystiolaeth a chanllawiau statudol sydd wedi'u cyhoeddi, sy'n sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran ymateb Llywodraeth Cymru.

Rwy'n ystyried, felly, fod yr eitem archwilio hon bellach ar gau.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

**Archwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Comisiynu Cartrefi Gofal**

**Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth**

Roedd adroddiad yr Archwiliad yn cynnwys 13 o argymhellion. Cafodd 10 eu derbyn, a chafodd 3 eu gwrthod.

**Argymhelliad – 1. Rydym yn nodi'r gwaith parhaus i werthuso gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ond yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i adolygu cydymffurfedd â darpariaethau comisiynu cartrefi gofal a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diben craidd astudiaethau gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw deall profiadau a disgwyliadau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Swyddogaeth cyrff rheoleiddio, sef AGC ac AGIC yn yr achos hwn, yw asesu cydymffurfedd â'r fframwaith statudol fel y mae'n berthnasol i'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynu darpariaeth. Caiff hyn ei ategu gan fframwaith gwella perfformiad cenedlaethol ac adroddiadau awdurdodau lleol, gan gynnwys adroddiadau blynyddol gan gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol statudol.

Byddwn yn sicrhau bod y cydymffurfedd hwn a'r fframwaith perfformiad yn datblygu drwy ddiwygiadau'r rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a fydd yn sail i ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023, ac yng nghyd-destun argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Arbenigol ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

At hynny, mae adroddiadau gan Archwilio Cymru ac adolygiadau annibynnol eraill (adolygiad KPMG yn 2019) o drefniadau cydgomisiynu a chyfuno cyllidebau rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn comisiynu lleoliadau ar gyfer pobl hŷn wedi dangos effaith ac effeithiolrwydd cyfyngedig y trefniadau presennol. Drwy'r rhaglen waith ailgydbwyso gofal a chymorth i ddatblygu fframwaith comisiynu cenedlaethol ac atgyfnerthu gwaith rhanbarthol, caiff y dyletswyddau a'r disgwyliadau presennol eu hadolygu a'u hegluro. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rhaglen waith ailgydbwyso yn awyddus i ddatblygu trefniadau monitro ac archwilio ar y cyd ar gyfer gwaith integredig.

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad wedi'i gyflawni ac mae camau'n cael eu cymryd a'u monitro drwy roi polisïau ar waith. Mae trefniadau comisiynu wedi'u hystyried mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys darpariaethau cartrefi gofal.

Mae Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn nodi egwyddorion a safonau cenedlaethol newydd ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth o dan y Ddeddf. Mae'n nodi'n benodol y dylai partneriaid statudol gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys defnyddio trefniadau cyfuno cyllidebau, lle y bo'n briodol. Mae hyn wedi helpu i gefnogi ac atgyfnerthu'r disgwyliadau a nodir yng nghanllawiau Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid statudol i atgyfnerthu gwaith partneriaeth drwy Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 16 Gorffennaf a chafodd ei gau ar 19 Hydref 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn am ddiwygiadau i dair set o Reoliadau:

- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

Nod y diwygiadau oedd egluro ac atgyfnerthu trefniadau partneriaeth rhanbarthol o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cyhoeddwyd y Rheoliadau a'r canllawiau ategol ym mis Mai 2025.

Mae'r Rheoliadau yn atgyfnerthu gwaith partneriaeth mewn perthynas â chartrefi gofal a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys amcan newydd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn ymateb i adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, sy'n nodi blaenoriaethau comisiynu, gan gynnwys cartrefi gofal. Mewn ymateb i ganfyddiadau Archwilio Cymru ac adroddiad KPMG, rhoddwyd ffocws penodol ar ddeall yr heriau a'r rhwystrau i gyfuno cyllidebau. Drwy ymgysylltu ac ymgynghori, nodwyd y canlynol a) yr angen i ganolbwyntio ar atgyfnerthu trefniadau cydgomisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chydnabod bod cyllidebau cyfun yn adnodd i gefnogi trefniadau comisiynu yn hytrach na'u bod yn nod terfynol ynddynt eu hunain, b) yr angen am fwy o hyblygrwydd wrth bennu ar ba lefel y gellir cyfuno/rhannu cyllidebau ac adnoddau (rhanbarthol, is-ranbarthol, lleol, unigol). Mae trefniadau cyllidebau cyfun bellach yn cael eu monitro'n flynyddol drwy systemau adrodd ariannol y GIG.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn cyflwyno gofyniad newydd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal hunanasesiad bob dwy flynedd i adolygu trefniadau llywodraethu, swyddogaethau ac effeithiolrwydd, gan gynnwys cydymffurfedd â darpariaethau comisiynu cartrefi gofal a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Disgwylir y cylch cyntaf o hunanasesiadau yn 2026.
**Dolenni tystiolaeth URL [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer [HTML] | LLYW.CYMRU]**

**Argymhelliad – 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried llais defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'i gwaith diwygio polisi yn y maes hwn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut mae wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, fel rhan o waith y grŵp arbenigol ar ofal cymdeithasol.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Sefydlwyd y Grŵp Arbenigol annibynnol i sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, sydd ar gael am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, ym mis Chwefror 2022 a chwblhaodd ei adroddiad ym mis Medi 2022.

Roedd y Grŵp yn annibynnol ar y Llywodraeth ac yn cynnwys unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd amrywiol a oedd yn cynnig safbwyntiau dinasyddion, rheolwyr gwasanaethau, gweinyddiaeth gyhoeddus, cynrychiolwyr y gweithlu ac academyddion. Roedd y Grŵp hefyd yn cynrychioli barn pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac yn atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. Oherwydd natur dechnegol y grŵp arbenigol, y gynrychiolaeth gynhwysol ar y grŵp a'r amserlenni tynn ar gyfer cyflawni cyfres o argymhellion, teimlwyd y byddai ymgynghoriad ehangach yn fwy priodol ar gam diweddarach. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, ni theimlwyd bod Cylch Gorchwyl y Grŵp Arbenigol, a bennwyd gan Weinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru, yn cynnwys disgwyliadau yn ymwneud ag ymgynghoriad cyhoeddus helaeth.

Argymhellodd y Grŵp Arbenigol amrywiaeth o gamau ymarferol tuag at newid i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, a chyflwynodd ei argymhellion i Weinidogion, a Plaid Cymru bryd hynny, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu. Cafodd y Gweinidogion eu darbwyllo gan yr adroddiad hwn, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cychwynnol (**Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru – Cynllun Gweithredu Cychwynnol**). Fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Arbenigol, sefydlwyd Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, wedi'i chefnogi gan Grŵp Cynghori Arbenigol i gynghori a chraffu ar waith y Swyddfa Genedlaethol. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn datblygu modelau posibl ar gyfer darparu Gwasanaethau Gofal Cenedlaethol ar y cyd â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Pan fyddant wedi'u datblygu fel rhan o'r cynllun cyflawni ail gam, caiff ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ei gynnal.

**Cynnydd**

Mae'r argymhellion wedi'u cyflawni, ac mae gwaith ymgysylltu yn parhau i ddatblygu wrth i'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth roi polisïau ar waith. Mae Gweinidogion yn ymrwymedig i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol a'n rhanddeiliaid allweddol wrth inni symud ymlaen gyda'n Cynllun Gweithredu Cychwynnol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol yn nodi'r modd y bwriedir ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae'n nodi y byddwn yn symud tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol drwy broses tri cham lle byddwn yn ymgynghori, yn ymgysylltu ac yn cyd-lunio gwahanol elfennau'r cynllun gweithredu. Drwy weithio'n agos gyda Llais, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi canolbwyntio ar greu Fforwm y Bobl er mwyn clywed gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, teuluoedd, a chymunedau. Er enghraifft, cymerodd 20 o bobl ran yn ein trafodaeth bord gron ar gymorth ar gyfer cymunedau gwledig yn Sioe Frenhinol Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector a defnyddwyr gwasanaethau gwledig. Roedd pabell Llywodraeth Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn llawn ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar ddyfodol gofal cymdeithasol. Cyfarfu'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol â chynrychiolwyr fforwm Chynghrair Pobl Hŷn Cymru i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol. Roedd aelodau'r fforwm yn cynnwys unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol. Cyfarfu'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol hefyd â channoedd o ofalwyr ifanc o bob cwr o Gymru yn nigwyddiad arwyddo'r Cyfamod Gofalwyr Ifanc. Bwriedir cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill yn 2026 wrth inni gynyddu momentwm o ran ymgysylltu a meithrin cydberthynas â phobl o bob cymuned ledled Cymru.

Wrth i Gam 1 y Cynllun Gweithredu Cychwynnol (2022–2025) agosáu at gael ei gwblhau, mae nifer o elfennau eisoes wedi'u cyflawni, gan gynnwys y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth  Yn ystod gwanwyn 2023, dechreuwyd gwaith ymgysylltu ac ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Rhaglen

Ailgydbwyso Gofal a Chymorth-, a oedd yn cynnwys, mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor, ein cynigion ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer, y fersiwn ddiwygiedig o God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a Chanllawiau Statudol Rhan 9: Trefniadau Partneriaeth, sy'n rhoi elfennau integreiddio rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth y Rhaglen ar waith. Cafodd y cynigion hyn eu llunio ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sector gofal cymdeithasol drwy Grŵp Technegol Cenedlaethol a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Cynhaliodd swyddogion nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a rhoesant gyflwyniadau mewn digwyddiadau i randdeiliaid allweddol, a gwnaethant hefyd gynnal digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn dilyn yr ymgynghoriad, defnyddiwyd yr adborth i fireinio'r Fframwaith Cenedlaethol a llywio'r gwaith o ddatblygu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth Daeth y Fframwaith diwygiedig i rym ym mis Medi 2024.

Wrth i elfennau eraill o Gynllun Gweithredu Cychwynnol y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ddatblygu, rhoddir trefniadau ar waith i sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu cynnal gyda dinasyddion a'r sector gofal cymdeithasol cyfan, ac rydym yn cydnabod y bydd angen inni deilwra ein dull ymgysylltu, gan gynnwys wyneb yn wyneb. Er enghraifft, mae'n bosibl y caiff cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu eu cynnal o fewn y cyfnod ymgynghori safonol o 12 wythnos, a fyddai'n targedu rhannau penodol o'r sector, a digwyddiadau gyda dinasyddion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o'r argymhellion gwreiddiol a'r weledigaeth – **Datganiad Ysgrifenedig: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Adroddiad y Grŵp Arbenigol (10 Tachwedd 2022) | LLYW.CYMRU**

Tystiolaeth o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r argymhellion hynny ar waith – **Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru**

Ymgynghoriad ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – Crynodeb o'r ymatebion**

Fersiwn PDF o'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol: **Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru**

**Argymhelliad – 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru sy'n datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'u gwaith. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff hyn ei gyflawni, fel rhan o'i hymgynghoriad yng ngwanwyn 2023.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Partneriaid y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – sy'n cynnwys aelodau o'r Grŵp Technegol ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ac aelodau Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth rhanbarthol – yn cynrychioli amrywiaeth o leisiau o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Mae'r aelodau wedi ymrwymo i gynrychioli safbwyntiau eu sefydliad enwebu a/neu ranbarth mewn perthynas â gofal a chymorth yn gywir, a rhannu diweddariadau o drafodaethau'r Grŵp â'u rhwydweithiau eu hunain er mwyn cyflwyno adborth yn briodol.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar lais y dinesydd ac ymgysylltu yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhanbarthol wrth gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a dinasyddion eraill. Mae cynrychiolwyr dinasyddion wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen hwn.

Bydd y rhaglen gyfan yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth yn ystod gwanwyn 2023, ac yn y cyfamser, rydym yn cyfathrebu drwy ein cylchlythyr ar y rhaglen.

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Yn 2023, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ar gynigion y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a oedd yn cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer, y fersiwn ddiwygiedig o God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a Chanllawiau Statudol Rhan 9: Trefniadau Partneriaeth, yn ogystal â chynigion cysylltiedig eraill.

Er mwyn datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol, gwnaethom sefydlu Grŵp Technegol Cenedlaethol yn ogystal â dau is-grŵp i ystyried elfennau penodol o'r Fframwaith Cenedlaethol yn fanwl. Cafodd yr egwyddorion a'r safonau drafft ar gyfer comisiynu gofal a chymorth yr ymgynghorwyd arnynt yn ystod ymgynghoriad 2023 eu cyd-lunio gan un o'r grwpiau. Drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafwyd dros 90 o ymatebion ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal

a Chymorth gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion, y rhoddodd llawer ohonynt adborth manwl ar ein cynigion. Gan sefydliadau yn y trydydd sector, sy'n cynrychioli pobl sy'n cael gofal a chymorth, y cafwyd y gyfran fwyaf o ymatebion ac roedd eu hymatebion yn cynnwys safbwyntiau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Cynghrair Henoed Cymru, Age Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru Gyfan, Pobl yn Gyntaf Cymru, Cymdeithas Alzheimer, Barnardo's Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Gofalwyr Cymru, Plant yng Nghymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymorth Cymru, Cwmpas, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Cŵn Tywys Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Leonard Cheshire, Llamau, Marie Curie, Mencap Cymru, NSPCC, Oxfam Cymru, Pobl yn Gyntaf Rhondda Cyn, RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall) Cymru, Y Gymdeithas Strôc, WCVA ac YMCA Caerdydd.

Cafodd yr ymatebion hyn a safbwyntiau'r bobl y maent yn eu cynrychioli eu hystyried yn helaeth wrth ddatblygu fersiwn derfynol y Fframwaith Cenedlaethol, a ddaeth i rym ar 1 Medi.

*Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i Atgyfnerthu trefniadau partneriaeth rhanbarthol*

I gefnogi'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, sefydlwyd pum grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- gwasanaethau integredig
- cynllunio a pherfformiad
- llywodraethu a chraffu
- ymgysylltu a llais
- ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol

Cwblhaodd y grwpiau gorchwyl a gorffen weithgarwch ymgysylltu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau diwygiedig (gweler argymhelliad 1). Cafodd safbwyntiau rhanddeiliaid (Gwanwyn 2023) eu cynnwys wrth lunio'r rheoliadau diwygiedig drafft (Ebrill 2024), y cytunwyd arnynt gan y Senedd ar 28 Tachwedd 2024. Cyd-luniodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar ymgysylltu hefyd Siarter y Dinesydd a chanllawiau ar rolau a chyfrifoldebau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r siarter a'r deunyddiau ategol wedi'u cynnwys yng nghanllawiau statudol Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac maent bellach yn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu gwell â chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng ngwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

<u>Grŵp Cynghori Strategol</u>
Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Swyddfa Genedlaethol, mae Grŵp Cynghori Strategol allanol wedi'i sefydlu i sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn. Ei brif rôl yw cynghori a chefnogi'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth wrth gyflawni ei gwaith, drwy gynnig cyngor strategol a her adeiladol. O ran ymgysylltu, bydd yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a'r Swyddfa Genedlaethol i fod yn llais hyddysg i'r sector a thu hwnt, a chefnogi gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ym mhob rhan o'r sector.

<u>Fforwm i Ddinasyddion</u>
Mae'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ymgorffori mecanweithiau llais y dinesydd. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi ymgysylltu â dinasyddion drwy ddigwyddiadau gwrando a arweiniwyd gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda Llais i sicrhau ymgysylltu cynhwysol. Cyd-luniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais Siarter y Dinesydd a chanllawiau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl, sydd bellach wedi'u hymgorffori mewn canllawiau statudol. Mae'r Grŵp Cynghori Strategol hefyd wedi'i sefydlu i sicrhau bod lleisiau dinasyddion a rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli yn nhrefniadau llywodraethu'r Swyddfa Genedlaethol. Disgwylir i'r Fforwm i Ddinasyddion ddod yn gwbl weithredol fel rhan o seilwaith ymgysylltu sy'n aeddfedu'r Swyddfa Genedlaethol, gyda ffocws ar gyrraedd grwpiau wedi'u hymyleiddio a sicrhau cynrychiolaeth eang ledled Cymru.

### Dolenni tystiolaeth URL

Tystiolaeth o waith ymgynghori, cyd-lunio ac ymgorffori llais y dinesydd yn y Fframwaith Cenedlaethol, cynnydd o ran ymgysylltu â dinasyddion a datblygu'r Fforwm i Ddinasyddion a chanllawiau ategol.

**Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – Crynodeb o'r ymatebion**

**Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth – Cod Ymarfer**

**Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: siarter ar gyfer aelodau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr [HTML] | LLYW.CYMRU**

**Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth: adroddiad blynyddol 2024 | LLYW.CYMRU**

**Argymhelliad – 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried annog a chefnogi rôl gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal, ond o fewn ffiniau llym cefnogi ansawdd bywyd, megis datblygu diddordebau cyffredin a gweithgareddau. Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau gofal proffesiynol.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Yn 2021, ariannodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot bach i recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi ymweliadau diogel rhwng preswylwyr a pherthnasau yn ystod y pandemig. Drwy hyn, lleihawyd y pwysau ar staff cartrefi gofal i gyflawni'r rôl benodol hon.

Rydym bellach yn adeiladu ar y dull i recriwtio, hyfforddi a sefydlu gwirfoddolwyr a ddatblygwyd yn ystod y prosiect cychwynnol. Nod ein prosiect newydd yw ehangu rôl, cyrhaeddiad, sgiliau a niferoedd gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal yng Nghymru, yn seiliedig ar adborth a gafwyd drwy'r prosiect peilot, gan sicrhau hefyd fod rolau gwirfoddolwyr yn glir ac yn briodol. Y targed yw recriwtio 80 o wirfoddolwyr newydd ar draws 20 o gartrefi gofal mewn pedair ardal ddaearyddol yng Nghymru (Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Gwent a Sir Benfro) gyda chymorth sefydliad lleol ym mhob ardal. Y nod yw gweithio gyda phum cartref gofal ym mhob ardal. Rydym wedi darparu £63,000 o gyllid grant i Age Cymru i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Fel rhan o'r prosiect hwn, a gynhelir rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2023, caiff gwirfoddolwyr eu hyfforddi i ymgysylltu â phreswylwyr cartrefi gofal gan ddefnyddio dull 'ymholi gwerthfawrogol'; mae hyn yn golygu gweithio gyda gwerthoedd pobl, gan barchu straeon am brofiadau a naratifau personol, a dangos sensitifrwydd i deimladau. Bydd hyfforddi gwirfoddolwyr yn y ffordd hon yn helpu preswylwyr i roi adborth i'r cartref gofal ar y materion sy'n bwysig iddynt. Caiff gwirfoddolwyr hefyd eu hyfforddi i gefnogi cydgysylltwyr gweithgareddau i adfywio cartrefi gofal yn ystod y cyfnod pontio hwn ar ôl y pandemig i adfer ffordd o fyw mwy arferol a bywiog.

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Ym mis Mehefin 2023, ariannodd Llywodraeth Cymru Age Cymru i barhau i weithio tuag at ymgorffori gwirfoddoli yn y sector cartrefi gofal, er mwyn codi proffil gwirfoddoli mewn cartrefi gofal mewn modd strategol a gwerthuso'r dull a ddefnyddiwyd i wella llesiant preswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion drwy'r prosiect gwirfoddoli. Rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mawrth 2024, cafodd 44 o wirfoddolwyr eu hyfforddi a'u lleoli mewn 28 o gartrefi gofal, gan gwblhau 990 o oriau o wirfoddoli ac ymgysylltu â 870 o breswylwyr. Cynhaliwyd dwy gynhadledd i rannu'r adnoddau a'r arferion da a sefydlwyd drwy'r prosiect a chyflwyno'r adroddiad gwerthuso.

Mae ffrwd waith llesiant preswylwyr cartrefi gofal i oedolion, gan weithio gyda Age Cymru, wedi casglu'r holl arferion da, adnoddau, a gwersi a ddysgwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd mewn un pecyn cymorth ar-lein i gartrefi gofal. Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2025. Mae'r pecyn cymorth ar gefnogi llesiant preswylwyr yn cynnwys adran ar wirfoddoli, sy'n ymdrin â recriwtio, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr.

Yn 2024/25, cafodd Gofal Cymdeithasol Cymru ei ariannu drwy Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru, drwy CGGC i wneud gwaith ymchwil ar wirfoddoli mewn cartrefi gofal. Mae'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ac mae'n cael ei ystyried gan Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru/beth-syn-digwydd/newyddion-a-blogiau/adroddiad-newydd-am-wirfoddoli-mewn-gofal-cymdeithasol**.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi cynnal prosiect ymchwil newydd i archwilio i'r modd y gall gwirfoddoli fod yn llwybr i rolau â thâl ym maes gofal cymdeithasol.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o effaith y rhaglen gwirfoddoli a'r adnoddau a ddatblygwyd i gefnogi gweithgarwch yn y dyfodol.

**Gwerthusiad o Wirfoddoli mewn Cartrefi Gofal – Age Cymru**
**Pecyn Cymorth Gwirfoddolwyr Cartrefi Gofal – Age Cymru**

**Argymhelliad – 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, beth arall y gellir ei wneud i adolygu cyflogau a thelerau ac amodau gweithwyr gofal, i sicrhau cydraddoldeb â staff y GIG ac i fod yn gystadleuol â diwydiannau eraill, megis y diwydiant lletygarwch. Heb dâl ac amodau cydradd, bydd y sector yn parhau i wynebu problemau recriwtio a chadw staff.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn un o ymrwymiadau allweddol y rhaglen lywodraethu. Roedd angen dybryd am gymorth yn y sector i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw, a waethygwyd gan yr heriau eithriadol a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19. Darparwyd £43m o gyllid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, a £70 miliwn yn 2023/24 i gyflawni'r ymrwymiad o ran y Cyflog Byw Gwirioneddol. Ers hynny, mae costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'u cynnwys yn y setliad i awdurdodau lleol.

Yn 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnull y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, grŵp partneriaeth gymdeithasol lle mae undebau, cyflogwyr a'r Llywodraeth yn dod ynghyd i ystyried sut y gellir gwella amodau gweithio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a nodi opsiynau tymor canolig a hirdymor hyfyw i fynd i'r afael â'r pryderon o ran recriwtio, gwella telerau ac amodau'r gweithlu a chanfod ffyrdd o wella a chreu sector cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r Fforwm yn ymrwymedig i gydweithio i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisi cenedlaethol mewn perthynas â gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i weithio mewn ffordd uchelgeisiol a phragmataidd i sicrhau newid ymarferol y gellir ei roi ar waith.

Mae wedi blaenoriaethu materion penodol yn ymwneud â gwaith teg yn y sector:

- Talu Cyflog Byw Gwirioneddol i bob aelod o staff gofal cymdeithasol o leiaf.
- Datblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer staff gofal cymdeithasol.
- Sefydlu Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.
- Archwilio rôl a phrofiadau Cynorthwywyr Personol ym maes gofal cymdeithasol a'u gallu i gael gwaith teg.
- Cefnogi amgylcheddau gwaith diogel, iach a chynhwysol ym maes gofal cymdeithasol.
- Deall effaith oriau heb eu gwarantu ar weithwyr ac i ba raddau y mae gweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu eu harfer.

Yn y byrdymor, canolbwyntiodd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ar welliannau i dâl a rhoddodd gyngor ar y broses o roi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith, ac mae bellach yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni i wella tâl a thelerau ac amodau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, fel datblygu'r Fframwaith Tâl a Dilyniant. Bydd y fframwaith hwn yn tynnu sylw at y gwahanol rolau a chyfleoedd datblygu sydd ar gael yn y sector gofal cymdeithasol, ac yn hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa am oes, gan nodi rolau amrywiol ar lefelau cyflog gwahanol.

**Cynnydd**

Rydym bellach ym mhedwaredd flwyddyn ariannol ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dros 2022–23 a 2023–24, gwnaethom ddarparu tua £113 miliwn o gyllid i gefnogi'r ymrwymiad hwn.

Ers 2024-25, bu cyllid ar gael fel rhan o'r Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Leol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Ar 22 Hydref 2025, cyhoeddwyd gwerthusiad annibynnol o'r broses o roi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, mae Cordis Bright, a gontractiwyd i gynnal y gwerthusiad annibynnol, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethol a'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gyflawni weithredol. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wrthi'n ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion. Yn gadarnhaol, mae'r adroddiad yn nodi bod 84% o'r ymatebwyr bellach yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol, ond mae hyn yn dangos nad yw'n cyrraedd ein holl weithwyr gofal cymdeithasol ac, felly, bydd y Gweinidog yn adolygu'r adroddiad ac yn ystyried pan welliannau y gellir eu gwneud i sicrhau bod y polisi mor effeithiol ag y gall fod.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod bob chwarter, ac mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen amrywiol wedi'u sefydlu a arweinir gan aelodau'r Fforwm ar feysydd gwaith yn ymwneud â gwaith teg a gwella amodau i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i sicrhau bod llais y gweithwyr a'r darparwyr yn cael ei ystyried yn allweddol i fwrw ymlaen â'r rhaglenni gwaith hyn.

Ar ôl ymgynghori ar Fframwaith Tâl a Dilyniant gwirfoddol drafft ar gyfer y sector, cytunodd y Fforwm i sefydlu dau grŵp arbenigol i ganolbwyntio ar dâl, a dilyniant. Bydd y fframwaith hwn yn helpu darparwyr i gynnig tâl cyson a chyfleoedd datblygu a dilyniant clir. Mae gan y gweithgorau brofiad penodol o dâl neu ddilyniant ym maes gofal cymdeithasol a gwybodaeth am hynny ac maent hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r GIG er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried sut mae'r GIG yn nodi ei graddfeydd cyflog ac yn cysoni â hynny. Rydym ar gamau olaf y gwaith hwn ac yn anelu at gyhoeddi'r Fframwaith ar ddechrau 2026.

Mae gwaith parhaus y Fforwm mewn perthynas â chydfargeinio wedi arwain at sefydlu 'Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithaso' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi dod ag undebau llafur, cyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol a'r Llywodraeth ynghyd i gytuno ar 'fodelau arferion gorau' cyflogaeth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol. Rhoddir blaenoriaeth i dri pholisi adnoddau dynol 'modelau arferion gorau' yn ystod blwyddyn gyntaf y Bartneriaeth, ar ôl ymgynghori â'r gweithlu a darparwyr ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Y nod wrth ddatblygu'r polisïau model hyn yw cysoni'r telerau ac amodau ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol.

Roedd Bil Hawliau Cyflogaeth Llywodraeth y DU yn cynnwys amod i gyflwyno Cytundebau Cyflog teg i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y darpariaethau hyn hefyd yn berthnasol i Gymru. Bydd Cytundebau Cyflog Teg yn nodi newid sylweddol i dâl ym maes gofal cymdeithasol, gan bennu cyfraddau cyflog y gellir eu gorfodi. Ym mis Gorffennaf 2025, pasiodd y Senedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol u Gymru, a fydd yn pennu Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol. Mae'r Fforwm bellach wedi dechrau gweithio gyda'r llywodraeth i lywio'r ffordd y byddwn yn datblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dâl ac amodau teg drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol, y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a Phartneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

**Gweinyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol – LLYW.CYMRU**

**Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol – LLYW.CYMRU**

**Fforwm y Gweithlu Gofal Cymdeithasol – LLYW.CYMRU**

**Argymhelliad – 6. Rydym yn cefnogi Argymhelliad 14 o adroddiad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â Llywodraethau Cymru sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad cadarn o ymgyrch recriwtio Gofalwn. Cymru.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn o ymgyrch Gofalwn Cymru drwy amrywiaeth i weithgareddau gwerthuso.

Mae Gofalwn Cymru yn cynnwys cyfres o ymgyrchoedd â ffocws penodol a reolir gan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n mynd i'r afael â materion a heriau allweddol a wynebir yn y sector. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant wedi'i hwyluso drwy gynllun Cyflwyniad i Gofal Cymdeithasol a'r wefan, gan gynnwys porth swyddi.

Gan mai Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n rheoli ymgyrch Gofalwn Cymru, ef hefyd sy'n gyfrifol am ei gwerthuso. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid at Gofalwn Cymru, a chredwn ei bod yn briodol mai Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am werthuso effaith ei gwaith. Mae trefniadau eisoes ar waith i Lywodraeth Cymru oruchwylio gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru ac i ba raddau y mae'n cyflawni ei ganlyniadau strategol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil manwl er mwyn meithrin dealltwriaeth well o ddulliau recriwtio cyflogwyr ym maes gofal a'r rhwystrau a wynebir. Bydd y gwaith ymchwil hwn hefyd yn fodd i ddeall cyfranogiad cyflogwyr yn Gofalwn Cymru a'u hymwybyddiaeth ohoni, a'r effaith y gallai hyn fod wedi ei chael ar eu gweithgarwch recriwtio, a chaiff ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2023. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnal arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd a fydd yn adeiladu ar arolygon a gynhaliwyd yn 2018 a 2020 ac yn darparu data ar dueddiadau yn ymwneud â barn a safbwyntiau'r cyhoedd am y sector gofal cymdeithasol, y sector blynyddoedd cynnar a'r sector gofal plant. Dangosodd yr ail arolwg o ganfyddiadau a gynhaliwyd yn 2020 fod agweddau'r cyhoedd am werth y sector a'i weithlu wedi gwella. Disgwylir i'r trydydd arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd gael ei gwblhau ar ddechrau 2023.

**Cynnydd**

Rydym yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau y cynhelir gwerthusiad trylwyr o ymgyrch Gofalwn Cymru drwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthuso a thrwy'r trefniadau sydd eisoes ar waith i Lywodraeth Cymru oruchwylio gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru ac i ba raddau y mae'n cyflawni ei ganlyniadau strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid at Gofalwn Cymru, ond Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ei rheoli, felly credwn ei bod yn briodol mai Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am werthuso effaith ei gwaith.

Comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru Urban Foresight i gynnal gwaith ymchwil sy'n ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhannwyd y gwaith ymchwil yn ddwy thema: deall ymddygiadau ceisio gwaith a deall yr heriau o ran denu a recriwtio a rôl Gofalwn Cymru.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau o ran denu a recriwtio, lansiwyd Gofalwn Cymru yn 2019 gyda'r nod o godi proffil y sector a'i wneud yn fwy deniadol i geiswyr gwaith drwy gynnal ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol, datblygu adnoddau ar-lein, hysbysebu swyddi gwag a darparu cymorth i geiswyr gwaith a chyflogwyr.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Urban Forseight, ystyriwyd hefyd effaith Gofalwn Cymru. Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwaith ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid o'r sector a chyfres o adolygiadau pen desg yn gynharach y flwyddyn hon.

Nododd yr adroddiad fod Gofalwn Cymru yn cynnig gwerth sylweddol i'r sector. Mae ei gweithgareddau yn dda am ymgysylltu â cheiswyr gwaith a rhoi gwybodaeth iddynt, ac ystyrir eu bod yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau o ran denu a recriwtio, ond mae angen cynyddu ymwybyddiaeth yn y sector.

Ymhlith y canfyddiadau cadarnhaol a nodwyd yn yr adroddiad roedd y cwrs Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol, a oedd wedi bod yn boblogaidd o ran codi ymwybyddiaeth o'r sector ac sy'n paratoi darpar ymgeiswyr ar gyfer y math o waith dan sylw, cyrhaeddiad eang rhai o'r fideos a gynhyrchwyd ar gyfer yr ymgyrch a nifer y bobl a wnaeth eu gwylio, a'r rhaglen helaeth o weithgareddau allgymorth ac ymgysylltu megis Cysylltwyr Rhanbarthol, ymgysylltu ag ysgolion, ymgysylltu â cheiswyr gwaith, pecynnau cymorth i randdeiliaid, a Llysgenhadon Gofal. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r sector ac yn herio canfyddiadau negyddol.

Ar y cyfan, y canfyddiadau oedd bod Gofalwn Cymru wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi'r sector i ddenu gweithwyr, ond cydnabuwyd y gellid gwneud mwy ac, felly, cynigir cyfres o argymhellion ar gyfer Gofalwn Cymru, a thrwy hynny, Gofal Cymdeithasol Cymru, ochr yn ochr ag argymhellion eraill i gyflogwyr a darparwyr er mwyn mynd i'r afael â'r heriau o ran recriwtio.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o'r gwerthusiad annibynnol o ymgyrch Gofalwn Cymru a'i heffaith ar recriwtio a chanfyddiad y cyhoedd.

**Deall denu a recriwtio yn sector y blynyddoedd cynnar  a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru – Prif Adroddiad**

**Deall atyniad, recriwtio ac ymddygiadau ceisio gwaith – adroddiadau ac adnoddau – adroddiadau ac adnoddau – Gofal Cymdeithasol Cymru – Ymchwil, Data ac Arloesi**

**Beth mae Gofalwn Cymru wedi'i ddysgu o waith ymchwil diweddar ar ddenu, recriwtio a chadw – Gofal Cymdeithasol Cymru – Ymchwil, Data ac Arloesi**

**Argymhelliad – 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddenu mwy o wirfoddolwyr i'r sector cartrefi gofal i ddarparu gwasanaethau ansawdd bywyd ychwanegol, ond nid i gymryd lle gofal proffesiynol.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol fel rhan o'n prosiect gwirfoddolwyr a ariennir gan grant i ehangu rôl, cyrhaeddiad, sgiliau a niferoedd gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys Age Cymru, CGGC, Fforwm Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Caiff cyfarfod cyntaf grŵp rhanddeiliaid y prosiect ei gynnal ym mis Hydref.

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Mae prosiect Cymdogion Da Age Cymru yr adroddwyd arno wedi dod i ben. Mae'r prosiect a amlinellwyd yn Argymhelliad 4 hefyd wedi dod i ben. Drwy'r prosiectau hyn, llwyddodd Age Cymru i ymgorffori gwirfoddolwyr yn y sector cartrefi gofal. Cynhaliwyd dwy gynhadledd i rannu'r adnoddau a'r arferion da a sefydlwyd drwy'r prosiect a chyflwyno'r adroddiad gwerthuso.  Bydd y ddarpariaeth gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ar gyfer y sector. Er nad oes unrhyw raglen weithredol a arweinir gan Lywodraeth Cymru, mae amrywiaeth o brosiectau lleol yn mynd rhagddynt drwy gyllid trydydd sector.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o ymgorffori gwirfoddoli yn llwyddiannus mewn cartref gofal ac adnoddau a ddatblygwyd i gefnogi mentrau yn y trydydd sector yn y dyfodol.

[Gwerthusiad o Wirfoddoli mewn Cartrefi Gofal – Age Cymru]

[Pecyn Cymorth Gwirfoddolwyr Cartrefi Gofal – Age Cymru]

[Cartrefi Gofal a Gwirfoddoli – CGGC]

**Argymhelliad – 8. Mae angen i Lywodraeth Cymru orfodi dull mwy rhagweithiol o rannu gwybodaeth ar draws y sector cartrefi gofal, yn enwedig gwybodaeth am brofiad a boddhad defnyddwyr gwasanaethau, yn gysylltiedig â'r saith nod llesiant i Gymru. Dylid gweithredu'r gofyniad gorfodol hwn i rannu gwybodaeth yn genedlaethol, er mwyn sicrhau bod darparwyr, defnyddwyr gwasanaethau, Llywodraeth Cymru ac eraill â mynediad at wybodaeth gyson a pherthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i geisio cydsyniad yn rhagweithiol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth.**

**Gwrthod**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cytuno'n llwyr bod yn rhaid i welliannau i'r ddarpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol fod yn seiliedig ar brofiadau dinasyddion a chael eu hysgogi ganddynt. Mae'r safbwynt hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ganolog i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Felly, rydym yn ceisio datblygu amgylchedd lle mae setiau data cenedlaethol mwy cadarn yn sylfaen i ddysgu ac yn ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Mae amrywiaeth o fesurau eisoes ar waith yn hyn o beth.

O ran awdurdodau lleol, rydym wedi nodi mewn Cod Ymarfer y dylai awdurdodau lleol gasglu profiadau a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau, a defnyddio'r wybodaeth honno i ysgogi gwelliannau, fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella. Rhaid i dystiolaeth eu bod wedi gwneud hyn gael ei chyflwyno yn Adroddiadau Blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gofal. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn rhoi safbwyntiau defnyddwyr gofal wrth wraidd ei gwaith ei hun, ac yn cyhoeddi casgliadau ei harolygiadau.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym yn ceisio mandadu y dylid rhannu gwybodaeth am brofiadau unigolion, gan nad ydym o'r farn y byddai cost uchel rhoi dull o'r fath ar waith ar draws cannoedd o ddarparwyr yn creu budd cymesur o ran datblygu data yn ychwanegol at y camau rydym eisoes wedi'u cymryd ac sydd ar waith.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o'r trefniadau presennol ar gyfer casglu data ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau ar draws y sector cartrefi gofal.

[Fframwaith Perfformiad a Gwella – LLYW.CYMRU]

[Canllawiau ar Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – LLYW,CYMRU]

[Adroddiadau Arolygu AGC – Arolygiaeth Gofal Cymru]

**Argymhelliad – 9. Mae'r Cod Ymarfer ar arolygu sy'n deillio o ofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr geisio lleisiau defnyddwyr gwasanaethau ym mhob arolygiad. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd a thystiolaeth bod y darpariaethau bellach yn cael eu gweithredu a'u monitro'n llawn.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Pobl sy'n cael gofal a chymorth yw prif ffocws pob arolygiad a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae AGC wedi cynnal 705 o arolygiadau o 614 o gartrefi gofal i oedolion rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022 ac wedi treulio 9,181 o oriau ar safleoedd y cartrefi gofal hynny. Mae hyn yn ei galluogi i siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartrefi gofal a'u teuluoedd a'u ffrindiau pan fyddant yn bresennol yn ystod ein hymweliad.

Lle na all pobl siarad ag AGC, er enghraifft os ydynt yn byw gyda dementia, defnyddir Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI), sy'n ein helpu i ddeall eu profiad o fyw yn y cartref gofal. Mae AGC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae pobl wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal ac yn edrych am dystiolaeth o ran a yw llais y bobl yn cael ei ystyried wrth redeg y cartref yn unol â gofynion y rheoliadau. Pan fydd AGC o'r farn nad oes tystiolaeth o

hyn, byddwn yn nodi hyn fel maes i'w wella ac yn edrych i weld a yw hyn wedi cael ei gyflawni yn ystod yr arolygiad nesaf.

Yn ogystal, mae gan AGC arolwg adborth byr y gellir ei gwblhau yn ystod arolygiad neu unrhyw bryd arall am ei fod ar gael ar-lein. Rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022, cafodd AGC 982 o arolygon adborth am gartrefi gofal yng Nghymru, gan gynnwys 672 gan aelodau o staff, 98 gan bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal a 182 gan eu cynrychiolwyr, a 30 gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill. Mae AGC hefyd yn myfyrio ar safbwyntiau pobl yn ein hadroddiadau arolygu fel sy'n briodol. Dyma rai dyfyniadau o adroddiadau arolygu diweddar:

- "Caiff iechyd a llesiant y bobl eu cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym "they are always interested in how we are doing", a dywedodd unigolyn arall wrthym; "staff are really good with no problems here". Gwnaethom hefyd siarad â thri pherthynas, y dywedodd un ohonynt wrthym "the care is fantastic".
- "Mae person arall sy'n byw gyda dementia wedi symud i'r gwasanaeth yn ddiweddar. Mae'n gyfforddus ac wedi ymlacio ar ôl cyfnod o ofid i ddechrau wrth symud i mewn. Mae ei berthynas yn ymweld â'r cartref yn ddyddiol ac yn gadarnhaol iawn am y staff a'r amgylchedd, gan ddweud "it's the best home I have ever been in, and I've been in many"."

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Mae arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod pob arolygiad er mwyn ceisio eu barn a deall eu profiadau. Pan na fydd pobl yn gallu cyfathrebu ar lafar, bydd AGC yn defnyddio ei Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu, SOFI2, i ganolbwyntio ar lesiant y bobl drwy arsylwi ar sut beth yw bywyd i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae AGC hefyd yn defnyddio arolygon adborth i geisio barn perthnasau a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o fethodoleg arolygu AGC a ddefnyddir i gasglu llais defnyddwyr gwasanaethau yn ystod arolygiadau o gartrefi gofal.

**Sut rydym yn arolygu gwasanaethau oedolion a phlant – AGC**

**SOFI: Methodoleg Ansawdd Bywyd – AGC (PDF)**

**Arolwg Adborth – AGC (PDF)**

**Cyfeiriadau Adroddiadau Arolygu AGC**

**Argymhelliad – 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi data i'r Pwyllgor am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o gartrefi gofal yng Nghymru hyd yn hyn yn 2022, gan amlinellu'r gwaith arolygu a wneir am weddill y flwyddyn. Hoffai'r Pwyllgor glywed hefyd am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r ôl-groniad o arolygiadau yn ystod y pandemig.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ar 31 Awst 2022, roedd 1,044 o gartrefi gofal i oedolion wedi'u cofrestru ag AGC. Mae AGC wedi arolygu 486 o'r rhain ers mis Ionawr 2022. Nodir dull arolygu AGC yn ei chod ymarfer (https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180612-cod-ymarfer-cy.pdf (arolygiaethgofal.cymru). Mae AGC yn blaenoriaethu arolygiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym am wasanaethau. Yn ystod 2022, canolbwyntiodd AGC i ddechrau ar arolygu gwasanaethau lle roedd ein gwybodaeth yn codi pryderon, neu lle roedd AGC wedi nodi canlyniadau gwael i'r bobl yn ystod arolygiadau blaenorol ac roedd angen i AGC gynnal arolygiad arall i ystyried a oedd gwelliannau wedi'u gwneud. Rhoddodd AGC flaenoriaeth hefyd i arolygu gwasanaethau yr oedd angen eu harolygu am eu bod wedi ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Cafodd 1,639 o wasanaethau eu hailgofrestru rhwng 1 Ebrill 2018 a 26 Ionawr 2021.

Mae'n rhaid ystyried yr amserlen ar gyfer arolygu cartrefi gofal i oedolion ochr yn ochr â'r gofyniad i AGC arolygu 927 o wasanaethu oedolion a phlant rheoleiddiedig eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymorth cartref, cartrefi gofal i blant, ysgolion preswyl, ac ati.

Rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022, rydym wedi arolygu 614 o gartrefi gofal i oedolion. Nod y rhaglen arolygu gyfredol yw arolygu pob cartref gofal i oedolion cofrestredig o fewn y cyfnod o 18 mis rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae AGC yn ymwybodol iawn fod pwysau o ran recriwtio a chadw staff wedi gwaethygu effaith barhaus y pandemig ar y sector gofal cymdeithasol. Pan fydd AGC yn nodi canlyniadau gwael i bobl, bydd yn ei

gwneud yn ofynnol i'r darparwr weithredu, a byddwn yn dychwelyd i arolygu'r gwasanaeth i wirio bod gwelliannau wedi'u gwneud. Gallai arolygiadau ychwanegol o'r fath oedi'r broses o gwblhau'r rhaglen a gynlluniwyd, sy'n anodd ei ragweld a'i feintoli.

Yn ogystal â'r gweithgarwch arolygu, mae AGC yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ategu a chefnogi ein rhaglen arolygu. Er enghraifft, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd i rannu gwybodaeth am wasanaethau gofal. Mae hyn yn cynnwys rhannu unrhyw adborth a all fod gan gomisiynwyr gan bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n ymweld â gwasanaethau gofal yn rheolaidd. Mae AGC wedi datblygu protocol rhannu gwybodaeth a memorandwm cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyd chomisiynwyr. Mae AGC hefyd yn annog pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu ffrindiau a'u teuluoedd a staff gofal i rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt am wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r wybodaeth hon yn llywio'r gwaith o gynllunio ein gweithgarwch arolygu.

**Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Ym mis Mai 2023, roedd AGC wedi arolygu 98% o gartrefi gofal i oedolion o leiaf unwaith ers mis Hydref 2021. Yn ôl ystadegau ac adroddiadau diweddaraf AGC a gyhoeddwyd, mae'r cartrefi gofal sy'n weddill bellach wedi'u harolygu, gan gwblhau'r cylch arolygu 18 mis gwreiddiol. Mae AGC yn parhau i weithredu rhaglen arolygu ddynamig sy'n seiliedig ar risg, gan anelu at arolygu pob cartref gofal o leiaf unwaith o fewn 18 mis i'w arolygiad diwethaf. Mae'r cylch hwn yn cael ei gynnal, a rhoddir blaenoriaeth i arolygu cartrefi gofal yn seiliedig ar bryderon, canlyniadau, ac anghenion ailarolygu. Mae AGC hefyd wedi ehangu ei rhaglen arolygu i gynnwys graddau cyhoeddedig newydd ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref o fis Ebrill 2025, gan gynyddu tryloywder ac atebolrwydd ymhellach.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o weithgarwch arolygu a dull blaenoriaethu AGC, yn ogystal â'i hymdrechion i recriwtio i gefnogi'r rhaglen arolygu cartrefi gofal.

[Ystadegau Blynyddol – AGC]

[Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu – AGC (PDF)]

[Gweithio i Ni – AGC]

[Graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref | LLYW.CYMRU]c

**Argymhelliad – 11. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch codi ffioedd atodol ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfyngiadau rhwymol, i gyfyngu ar y meysydd lle y codir ffioedd o'r fath, y dylid eu cadw i'r lleiaf posibl a'u cyhoeddi. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o hyn cyn gynted â phosibl.**

**Gwrthod – Gweler yr ymateb ar y cyd isod ar gyfer 11 a 12.**

**Argymhelliad – 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell gweithredu system gwneud iawn annibynnol gadarn i alluogi defnyddwyr gwasanaethau neu eu perthnasau i herio ffioedd atodol.**

**Gwrthod – Ymateb ar y cyd ar gyfer 11 a 12**

Byddai Llywodraeth Cymru yn pryderu'n fawr pe bai unrhyw ffioedd yn cael eu codi ar unigolion am ofal sydd eisoes yn cael ei ddarparu am ddim drwy bwrs y wlad.

Mae canllawiau clir eisoes ar waith o fewn y Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus sy'n nodi'r ymagwedd at wasanaethau ychwanegol, a ddiffinnir fel gwasanaethau y tu hwnt i'r rheini y manylir arnynt yn y cynllun gofal a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r angen a aseswyd. Mae'r canllawiau yn glir na ddylid byth ddefnyddio trefniadau cyfraniadau personol fel ffordd o sybsideiddio'r gwasanaeth a ddarperir y mae'r bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol amdano, y dylai hynny fod yn fater o ddewis personol, ac na ddylai unigolion wynebu y manteisir yn ariannol arnynt. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu fframwaith atebolrwydd clir y disgwylir i fyrddau iechyd lleol ei ddilyn.

O ran gofal a gomisiynir neu a drefnir gan awdurdodau lleol, mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer ar gyfer codi ffioedd am ofal cymdeithasol oedolion yn nodi sefyllfaoedd cyfyngedig a phenodol iawn lle y gall taliadau cost ychwanegol fod yn briodol, e.e. pan fydd awdurdod lleol wedi cytuno i gais gan unigolyn am lety drutach na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu ar ei gyfer fel arfer. O ran gofal a gomisiynir neu a drefnir gan awdurdodau lleol, mae gwasanaethau eirioli,

system cwynion yr awdurdod lleol ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn adnoddau neu'n sianeli apelio eraill y gall unigolyn eu defnyddio.

I bobl sy'n ariannu ac yn trefnu eu gofal eu hunain, rydym yn disgwyl i ddarparwyr cartrefi gofal fod yn glir am y ffioedd y maent yn eu codi ar unigolion am ofal preswyl. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt nodi'r wybodaeth hon yn eu canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth ac yng nghytundeb gwasanaeth unigolyn.

Gyda'r trefniadau hyn ar waith, nes y byddwn wedi ystyried canfyddiadau'r Grŵp Arbenigol ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn llawn, ac wedi ymgysylltu â phartneriaid ynghylch y camau nesaf, ni fyddai'n briodol inni ymrwymo i unrhyw ddiwygiadau mawr i'r rheoliad, na rhoi system gwneud iawn annibynnol newydd ar waith ar yr adeg hon, heb y manylion hynny.

Fodd bynnag, yn unol â thystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, yn amodol ar ganlyniad y Grŵp Arbenigol, ac fel rhan o unrhyw system newydd, byddem yn rhoi unrhyw ddiweddariad pellach neu ddiwygiedig sydd ei angen am godi ffioedd am wasanaethau ychwanegol. O ran gwneud iawn, byddai angen inni ystyried yn ofalus sut y byddai unrhyw fireiniadau dilynol y gallem eu gwneud i'r rheoliadau a'r fframweithiau presennol yn cyd-fynd â chyd-destun unrhyw system newydd, a chyngor yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfraith defnyddwyr ar gyfer darparwyr cartrefi gofal i bobl hŷn yn y DU, sydd eisoes yn darparu lefel o amddiffyniad i bobl.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o fesurau a dulliau gwneud iawn sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â ffioedd atodol a chodi ffioedd am gartrefi gofal.

[Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG – LLYW.CYMRU]

[Cod Ymarfer ar Godi Ffioedd – LLYW.CYMRU]

[Sut i Gwyno – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru]

[Cyngor ar Gyfraith Defnyddwyr i Gartrefi Gofal – CMA (PDF)]

**Argymhelliad – 13. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i amlinellu ei bwriadau ar gyfer cronfeydd cyfun ar gyfer comisiynu cartrefi gofal, yng nghyd-destun y diwygiadau polisi parhaus yn y sector a'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig.**

**Derbyn**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Drwy ddatblygu a rhannu'r adroddiad hwn ac, yn fwy penodol, yr ymateb i argymhellion 1, rydym yn nodi bwriadau cronfeydd cyfun, yn fwy penodol Fel rhan o'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth, mae pum grŵp gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu i ystyried ac atgyfnerthu'r trefniadau integreiddio a chydweithio rhanbarthol drwy Bartneriaethau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Integredig wedi bod yn adolygu'r ddarpariaeth a'r trefniadau presennol ar gyfer cyfuno cronfeydd rhanbarthol ac, yn benodol, yn ystyried argymhellion Adroddiad 2021 Archwilio Cymru ar gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Bydd hefyd yn adolygu ac yn ystyried y defnydd a wneir o becyn cymorth cyllidebau cyfun Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyd-luniwyd yn 2019 a'i effaith gydag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn darparu canllawiau ymarferol ar sut i oresgyn rhwystrau posibl i drefniadau cronfeydd cyfun.

Mae gweithgarwch ymgysylltu ag aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen a gwersi a ddysgwyd o adolygiad KPMG o drefniadau cronfeydd cyfun yn awgrymu bod angen newid i sicrhau bod trefniadau cyd-gomisiynu yn fwy effeithiol ac yn seiliedig ar ganlyniadau, ac y caiff cronfeydd cyfun eu hystyried yn adnodd o fewn trefniant cyd-gomisiynu yn hytrach nag yn nod terfynol ynddynt eu hunain.

Felly, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn debygol o wneud argymhellion am ddiwygio canllawiau rhan 9 a fydd yn gwneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar gyfuno adnoddau, sy'n mynd y tu hwnt i gyfuno cyllidebau yn unig.
- Gosod cronfeydd cyfun yn gliriach yng nghyd-destun cyd-gomisiynu.
- Rhoi mwy o hyblygrwydd i bartneriaid o ran sut, pryd a ble maent yn cyfuno cronfeydd, h.y. ar lefel ranbarthol, is-ranbarthol, lleol neu unigol; a
- Nodi meysydd eraill â blaenoriaeth ar gyfer cyd-gomisiynu a chyfuno adnoddau.

Bydd argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, yn amodol ar ystyriaeth a phenderfyniad Gweinidogion, yn llywio canllawiau statudol diwygiedig rhan 9, y bwriedir ymgynghori arnynt yn ystod gwanwyn 2023. Ar ôl i Weinidogion

gymeradwyo'r canllawiau drafft diwygiedig, rhoddir copi o ddogfennau ymgynghori i'r Pwyllgor yn ffurfiol er mwyn iddo eu hystyried a gwneud sylwadau arnynt.

**Cynnydd**

Fel rhan o'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth, sefydlwyd pum grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried ac atgyfnerthu'r trefniadau integreiddio a chydweithio rhanbarthol drwy Bartneriaethau Partneriaeth Rhanbarthol. Aeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Integredig ati'n benodol i adolygu'r ddarpariaeth a'r trefniadau presennol ar gyfer cyfuno cronfeydd rhanbarthol ac ystyried argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru ar gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Ystyriodd hefyd y defnydd o becyn cymorth cyllidebau cyfun Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyd-luniwyd yn 2019 a'i effaith gydag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn darparu canllawiau ymarferol ar sut i oresgyn rhwystrau posibl i drefniadau cronfeydd cyfun.

Awgrymodd gweithgarwch ymgysylltu ag aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen a gwersi a ddysgwyd o adolygiad Archwilio Cymru a KPMG o drefniadau cronfeydd cyfun fod angen newid i sicrhau bod trefniadau cyd-gomisiynu yn fwy effeithiol ac yn seiliedig ar ganlyniadau, a bod cronfa gyfun yn cael ei hystyried yn adnodd o fewn trefniant cyd-gomisiynu yn hytrach nag yn nod terfynol ynddi'i hun.

Felly, gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen yr argymhellion canlynol am ddiwygio canllawiau rhan 9 fel eu bod yn gwneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar gyfuno adnoddau, sy'n mynd y tu hwnt i gyfuno cyllidebau yn unig.
- Gosod cronfeydd cyfun yn gliriach yng nghyd-destun cyd-gomisiynu.
- Rhoi mwy o hyblygrwydd i bartneriaid o ran sut, pryd a ble maent yn cyfuno cronfeydd, h.y. ar lefel ranbarthol, is-ranbarthol, lleol neu unigol; a
- Nodi meysydd eraill â blaenoriaeth ar gyfer cyd-gomisiynu a chyfuno adnoddau.

Mae argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen wedi llywio diwygiadau i God Ymarfer Rhan 2 a rheoliadau a chanllawiau Rhan 9 yr ymgynghorwyd arnynt yn 2023 a 2024. Mae'r diwygiadau i reoliadau Rhan 8 bellach wedi'u gwneud a'u cyhoeddi yn Fersiwn 3 o'r Canllawiau Statudol (Ebrill 2025). Bydd canllawiau diwygiedig Rhan 9 yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen mewn perthynas â gosod cronfeydd cyfun o fewn cyd-destun cyd-gomisiynu. Mae'r datganiad canlynol yn un o swyddogaethau diffiniedig Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng nghanllawiau Rhan 9: *'hwyluso comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal integredig ar y cyd, a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfun i ddod â staff, nwyddau a gwasanaethau at ei gilydd.*

Caiff gwelliannau i ymarfer cyd-gomisiynu eu cefnogi gan y Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol a chaiff cyllidebau cyfun eu monitro drwy systemau adrodd ariannol y GIG yn ogystal â thrwy graffu ar adroddiadau blynyddol a hunanasesiadau chwemisol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Dolenni tystiolaeth URL**

Tystiolaeth o fwriadau a diwygiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chronfeydd cyfun a chyd-gomisiynu, yn seiliedig ar ganllawiau statudol ac adolygiadau annibynnol.

**Canllawiau Statudol Rhan 9 – LLYW.CYMRU**

**Adroddiad Archwilio Cymru – Comisiynu Cartrefi Gofal**

**Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun – LLYW.CYMRU**

**Fframwaith Cenedlaethol: Cod Ymarfer – LLYW.CYMRU**